



GWYNEDD ARTIST OPPORTUNITY

This is a collaborative project between, Gwynedd County Council and Addo.

Brief for applicants

Design Fee: £4,000 including participatory workshops, starting December 2012

Context:

We are inviting applications from artists or makers with a collaborative/participative approach to design and implement artwork interventions at Ysgol Bro Dysynni, Gwynedd. The artist will be working with pupils and staff from three primary schools who will move into their new school at the beginning of September 2013.

The new school is sited at Llanegryn, in the Dysynni Valley, one of the loveliest in the southern half of the Snowdonia National Park. The new building reflects the environmental sensitivity of the locale and will incorporate sustainable credentials, including:

- banks of solar panels generating electricity for the building
- rainwater will be collected from the roof to be used for flushing toilets
- the school will be heated by a biomass boiler which will fully comply with the Clean Air Act standards
- green roof

The Artworks:

The artworks produced must be of high design quality, reflect the ethos of the school, this landscapes particular distinctiveness and promote awareness of 'out of classroom' learning. The artworks will be integral to the building and it's setting, within large landscaped grounds, and not stand alone sculptural objects. We envisage therefore that they will be functional artworks with specific purposes.

You will work closely with the Addo project manager, architect, contractor and other steering group members in order that your design ideas are applicable to this distinctive site.

We are interested in seeing applications from artists/applied artists with impeccable design abilities. You may or may not have produced public realm works previously.

The Artist:

This opportunity is open to UK and International Artists.

Applicants must demonstrate:

- Creative originality and professionalism in their work
- The ability and desire to work collaboratively as part of their creative practice



- A willingness to immerse themselves in the life and culture of the area
- The artist must be aware of and abide by the laws for working with children and vulnerable adults.
- In order to manufacture/install artworks, the artist must demonstrate current and appropriate indemnity insurance relevant to the artist in person and to any object/s to be manufactured.
- The artist is expected to lead a series of participatory art workshops with pupils exploring concepts of good design principals and the production of artworks. The language of all the schools within this cluster is Welsh, therefore the ability to communicate through the medium of Welsh when conducting workshops is essential.

Payment:

The selected artist will be paid in instalments to be agreed on appointment. This fee is inclusive of all travel costs, living expenses, and studio equipment and materials (design stage).

How to Apply:

To apply for this opportunity, please send the following information to tracy@addocreative.com by 23 November 2012:

- Up to 10 digital images or a 10-minute (max) showreel. All work should be numbered and include, title, date, dimension and media;
- An up-to-date CV;
- A brief letter of application that broadly outlines why you are interested in this opportunity and how it is relevant to your practice;
- Two letters of support.

When sending files large files (over 4MB), please provide hyperlinks to online files or a DropBox containing the files.

Please note that we do not require project proposal at this stage as we anticipate that details of activity to be undertaken as part of the project and developed following a period of research and interaction with the area and pupils.

Selection Process:

A panel of key stakeholders involved in the project, including staff from Gwynedd County Council, will shortlist candidates for interview from the applications received. Interviews will take place in Newtown on 5th December 2012. Candidates must be available for interview on this date. Invitations to interview will be sent out by 30th November 2012. Up to £100 per artist will be available to cover travel and subsistence expenses incurred by attending an interview. Interviews via Skype may be arranged.

At interview, interviewees will be expected to speak in more detail about their work and working processes and the approach that they envisage taking towards the



project. Artists will also be expected to give a presentation at interview outlining how they would capture the distinctiveness of this particular area.

If you have any queries regarding the recruitment process, please email tracy@addocreative.com

Further Information:

www.addocreative.com

www.creativegwynedd.com

Contact Details:

For queries and further information, If you have any further queries about this opportunity, please contact: Tracy Simpson, Addo, 07890203218

tracy@addocreative.com





CYFLE ARTIST GWYNEDD

Mae hwn yn brosiect ar y cyd rhwng Cyngor Gwynedd ac Addo.

Briff i ymgeiswyr

Ffi Ddylunio: £4,000 gan gynnwys gweithdai cyfranogol, i ddechrau mis Rhagfyr 2012.

Cyd-destun:

Rydym yn gwahodd ceisiadau gan artistiaid neu wneuthurwyr sydd ag agwedd gydweithiol/gyfranogol tuag at ddylunio, i weithredu ymyraethau gwaith celf yn Ysgol Bro Dysynni, Gwynedd. Bydd yr artist yn gweithio gyda Thîm Dylunio'r prosiect a disgyblion a staff o dair ysgol gynradd fydd yn symud i'w hysgol newydd ar ddechrau mis Medi 2013.

Mae'r ysgol newydd wedi'i lleoli yn Llanegryn, yn Nyffryn Dysynni, un o'r dyffrynnoedd hyfrytaf yn hanner isaf Parc Cenedlaethol Eryri. Mae'r adeilad newydd yn adlewyrchu sensitifrwydd amgylcheddol yr ardal a bydd yn ymgorffori nodweddion cynaliadwy, gan gynnwys:

- Banciau paneli solar i gynhyrchu trydan i'r adeilad
- Dŵr glaw yn cael ei gasglu o'r to a'i ddefnyddio mewn toiledau
- Bwyler biomas yn gwresogi'r ysgol fydd yn cydymffurfio'n llawn â safonau'r Ddeddf Aer Glan.
- To gwyrdd

Y Gwaith Celf:

Rhaid i'r gwaith celf a grëir fod o safon ddylunio uchel, rhaid iddo adlewyrchu ethos yr ysgol, y dirwedd nodedig sy'n amgylchynu'r ysgol a hyrwyddo ymwybyddiaeth o ddysgu 'y tu allan i'r dosbarth'. Bydd y gwaith celf yn rhan annatod o'r adeilad a'i leoliad, mewn gerddi mawr wedi'u tirlunio, yn hytrach na gwrthrychau cerflunio yn sefyll ar eu pen eu hunain. Felly, rydym yn rhagweld y byddant yn weithiau celf gyda swyddogaethau a dibenion penodol.

Byddwch yn gweithio'n agos gydag Addo, pensaer a chontractwr y prosiect ynghyd ag aelodau eraill o'r grŵp llywio er mwyn dylunio syniadau sy'n berthnasol i'r safle unigryw hwn. Sefydlwyd grŵp llywio ag iddo aelodau o'r Tîm Dylunio prosiect, staff Cyngor Gwynedd, y contractwr ac Addo er mwyn gosod targedau i'r prosiect, sicrhau cydymffurfiaeth a chynnig cefnogaeth i'r artist.

Mae croeso i artistiaid/artistiaid celf gymwysedig/gwneuthurwyr/dylunwyr sydd â gallu dylunio di-fai i ymgeisio, p'un a ydynt wedi creu gwaith ar gyfer manau cyhoeddus o'r blaen a'i pheidio.

Yr Artist:



Mae croeso i Artistiaid o'r DU ac Artistiaid Rhyngwladol ymgeisio.

Rhaid i ymgeiswyr arddangos:

- Gwreiddioldeb creadigol a phroffesiynoldeb yn eu gwaith.
- Y gallu a'r dymuniad i weithio ar y cyd fel rhan o'u harfer creadigol
- Parodrydd i ymollwng eu hunain ym mywyd a diwylliant yr ardal
- Rhaid i'r artist fod yn ymwybodol o'r deddfwriaethau wrth weithio gyda phlant ac oedolion bregus a chadw atynt.
- I gynhyrchu/gosod gwaith celf, rhaid i'r artist arddangos yswiriant indemniad priodol a chyfredol sy'n berthnasol i'r artist ei hun ac i unrhyw wrthrychau sydd i'w cynhyrchu.
- Disgwylir i'r artist arwain ar gyfres o weithdai celf cyfranogol gyda disgyblion gan edrych ar gysyniadau egwyddorion dylunio da a chreu gwaith celf.
- Cymraeg yw iaith yr holl ysgolion yn y clwstwr, felly mae'r gallu i gyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg wrth gynnal gweithdai yn angenrheidiol. Fodd bynnag, fe wnawn dderbyn ceisiadau gan artistiaid di-Gymraeg sy'n barod i weithio gyda'r artistiaid eraill sy'n siarad Cymraeg yn ystod cyfnodau'r gweithdai.

Taliad:

Bydd yr artist penodedig yn derbyn cyfres o randaliadau a gytunir arnynt yn dilyn y penodiad. Mae'r ffi £4,000 yn cynnwys yr holl gostau teithio, costau byw, offer stiwdio a deunyddiau. Disgwylir i'r artist weithio ym mhob ysgol am ddau ddiwrnod neu fwy yn ystod y cyfnod dylunio.

Sut i wneud cais:

I ymgeisio am y cyfle hwn, anfonwch y wybodaeth a ganlyn i tracy@addocreative.com erbyn 23 Tachwedd 2012:

- Hyd at 10 delwedd ddigidol neu *showreel* dim hwy na 10 munud. Dylid rhifo'r gwaith a chynnwys y teitl, dyddiad, dimensiwn a'r cyfrwng;
- CV cyfredol;
- Llythyr ymgeisio byr sy'n amlinellu'n fras pam fod gennych ddiddordeb yn y cyfle hwn a sut mae'n berthnasol i'ch gwaith;
- Dau lythyr cefnogi.

Wrth anfon ffeiliau mawr (mwy na 4MB), cofiwch ddarparu hypergyswllt i ffeiliau ar y we neu *DropBox* sy'n cynnwys y ffeiliau. Ni fydd gwybodaeth a gyflwynir mewn fformat arall yn cael ei derbyn.

Noder nad ydym yn gofyn am gynnig i'r prosiect ar hyn o bryd gan ein bod yn rhagweld y bydd manylion y gweithgarwch yn cael eu cwblhau fel rhan o'r prosiect ac yn cael eu datblygu wedi cyfnod o ymchwil a rhyngweithio gyda'r ardal, y disgyblion a Thîm Dylunio'r prosiect.

Proses Ddethol:



Bydd panel o fudd-ddeiliaid allweddol sy'n ymwneud â'r prosiect, gan gynnwys aelodau staff o Gyngor Gwynedd, yn creu rhestr fer o ymgeiswyr i'w cyfweld. Cynhelir y cyfweiliadau yn Y Drenewydd ar 5 Rhagfyr 2012. Rhaid i ymgeiswyr sicrhau y byddent ar gael i dderbyn cyfweiliad y diwrnod hwn. Anfonir gwahoddiadau i'r cyfweiliadau ar 30 Tachwedd 2012. Bydd hyd at £100 ar gael i bob artist i dalu am gostau teithio a chynhaliaeth i fynychu'r cyfweiliad. Gellir trefnu cynnal y cyfweiliadau drwy gyfrwng *Skype*.

Yn ystod y cyfweiliad, bydd disgwyl i ymgeiswyr roi mwy o fanylion am eu gwaith a'u prosesau gweithio a'r dull y maent yn rhagweld y byddant yn ei ddefnyddio wrth weithio ar y prosiect. Bydd disgwyl i artistiaid roi cyflwyniad yn y cyfweiliad yn amlinellu sut fyddent yn cyfleu nodweddion unigryw yr ardal benodol hon. Edrychir ar ansawdd gwaith blaenorol yr artistiaid cyn penodi. Nid oes angen syniadau dylunio penodol yn ystod y cam cyfweld.

Os oes gennych unrhyw ymholiad ynghylch y broses recriwtio, e-bostiwch tracy@addocreative.com

Gwybodaeth Bellach:

www.addocreative.com

www.creativegwynedd.com

Manylion Cyswllt:

Am ymholiadau a gwybodaeth bellach, os oes gennych unrhyw ymholiad pellach am y cyfle hwn, cysylltwch â: Tracy Simpson, Addo, 07890203218
tracy@addocreative.com

